

Nifer y bobl a gadwyd o dan Adran 135 ac 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (a ddiwygiwyd yn 2007) yw'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr sy'n caniatáu i bobl ag anhwylder meddyliol gael eu derbyn i'r ysbyty, eu cadw a'u trin heb eu cydsyniad – boed hynny er lles eu hiechyd neu eu diogelwch eu hunain neu i amddiffyn pobl eraill.

Beth yw Adran 135 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983?

Mae Adran 135 yn caniatáu i'r heddlu fynd i mewn i gartref rhywun a mynd ag unigolyn i (neu ei gadw mewn) man diogel fel y gellir cynnal asesiad iechyd meddwl. Rhaid bod gan yr heddlu warant gan lys ynadon yn caniatáu iddynt gael mynediad i gartref rhywun. Rhaid i gais am warant gael ei wneud gan Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy a gellir rhoi gwarant lle mae achos rhesymol i gredu:

- bod gan unigolyn anhwylder meddyliol, a'i
- fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu
- ei fod yn methu â gofalu amdano'i hun.

Beth yw Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983?

Mae Adran 136 yn caniatáu i'r heddlu fynd ag unigolyn i fan diogel (neu ei gadw ynddo). Gallant wneud hyn heb warant os yw unigolyn:

- yn ymddangos bod ganddo anhwylder meddyliol, ac
- yn rhywle heblaw tŷ, fflat neu ystafell lle mae'r unigolyn yn byw, neu ardd neu garej y gall un cartref yn unig ei ddefnyddio, ac
- angen gofal neu reoli ar unwaith (h.y. mae'r heddlu o'r farn bod angen cadw'r unigolyn ac eraill yn ddiogel).

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae ystadegau chwarterol Adrannau 135 a 136 yn dangos nifer yr achosion o gadw dan Adrannau 135 a 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gan ddarparwr Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru ers mis Ebrill 2019. Gellir dadagregu'r ystadegau ar sail:

- oedran;
- rhyw;
- ethnigrwydd;
- man diogel cyntaf;
- dull cludo i'r man diogel cyntaf, a
- chanlyniad asesiad.

Diffiniadau

Darparwr Bwrdd Iechyd Lleol (BILI)

Y BILI sy'n gyfrifol am reoli triniaeth y claf. Yn achos Adrannau 135 a 136, mae'n ofynnol i swyddog heddlu ymgynghori ag ymarferydd meddygol penodedig o'r darparwr BILI wrth ystyried a ddylid defnyddio pwerau Adran 136. Bydd y darparwr BILI yn gyfrifol am gynnal asesiad iechyd meddwl o unigolyn wedi'i gadw o dan Adran 135 neu 136 a thriniaeth yr unigolyn hwnnw ar ôl yr asesiad os bydd angen.

Oedran

Dyma oedran yr unigolyn ar y diwrnod pan:

- weithredir y warant sy'n caniatáu i'r heddlu fynd i mewn i gartref rhywun (Adran 135); neu
- daeth yr heddlu ar draws yr unigolyn (Adran 136).

Rhywedd

Mae hyn yn cael ei ddsbarthu yn ôl y rhywedd y mae unigolyn yn ystyried ei hun i fod. Os nad yw unigolyn yn gallu neu'n fodlon datgan ei rywedd, yna caiff ei ddsbarthu yn ôl y dosbarthiad diwethaf sydd ar gael, er enghraifft, yn ystod derbyniad blaenorol i'r ysbyty neu yn ôl manylion sydd ar gael gan y meddyg teulu.

Ethnigrwydd

Mae hyn yn cael ei ddsbarthu yn ôl yr ethnigrwydd y mae unigolyn yn ystyried ei hun i fod. Os nad yw unigolyn yn gallu neu'n fodlon datgan ei ethnigrwydd, yna caiff ei ddsbarthu yn ôl y dosbarthiad diwethaf sydd ar gael, er enghraifft, yn ystod derbyniad blaenorol i'r ysbyty, neu yn ôl manylion sydd ar gael gan y meddyg teulu.

Man diogel cyntaf

Y man cadw cyntaf y mae'r unigolyn yn cael ei gadw ynddo neu'n cael ei gludo iddo gyntaf. Gellir symud unigolyn i fan diogel dilynol os, er enghraifft, y cafodd ei gludo i orsaf heddlu yn y lle cyntaf oherwydd y risg o niwed i'w hun neu i eraill ac yna ei symud i fan diogel ar sail iechyd ar ôl i'r risgiau gael eu rheoli / datrys.

Dull cludo i fan diogel cyntaf

Dull cludo'r unigolyn i'r man diogel cyntaf.

Canlyniad asesiad

Dyma ddigwyddodd i'r unigolyn ar ôl cwblhau'r asesiad iechyd meddwl.

Defnyddwyr a defnydd

Credwn mai prif ddefnyddwyr yr ystadegau hyn yw:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr;
- Aelodau'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cymru;
- swyddogion yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru;
- GIG Cymru; awdurdodau lleol a phlismaona;
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru;
- adrannau llywodraeth eraill;
- y cyfryngau; a
- dinasyddion unigol.

Defnyddir yr ystadegau mewn sawl ffordd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- darparu cyngor i Weinidogion;
- llywio dadl yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt;
- monitro'r nifer a'r math o achosion o gadw, yn ogystal â nodi'r gwahaniaethau mewn cyfraddau cadw ar draws cyfnodau adrodd ac o fewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru;
- ar gyfer dadansoddi tueddiadau; ac
- i helpu i benderfynu ynghylch y gwasanaeth y gall y cyhoedd ei dderbyn gan y sefydliadau perthnasol.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau a, lle bo modd, yn rhoi cyhoeddusrwydd i newidiadau ar y rhyngwyd, mewn pwyllgorau a rhwydweithiau eraill i ymgynghori â defnyddwyr yn ehangach. Ein nod yw ymateb yn gyflym i newidiadau polisi i sicrhau bod ein hystadegau'n parhau i fod yn berthnasol.

Os ydych chi'n ddefnyddiwr ac nad ydych chi'n teimlo bod y rhestr uchod yn eich cwmpasu'n ddigonol, rhowch wybod i ni trwy e-bostio hss.performance@llyw.cymru.

Cryfderau a chyfyngiadau data

Cryfderau

- Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i chyhoeddi bob chwarter (ar StatsCymru ac mewn pennawd ar wefan Llywodraeth Cymru) mewn modd trefnus er mwyn hwyluso mynediad a defnydd.
- Mae allbynnau'n cynnwys ffocws clir ar Gymru ac fe'u datblygwyd i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewnol ac allanol. Darperir gwybodaeth yn ôl byrddau iechyd lleol.
- Oherwydd bod Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru ac i Loegr, gellir cymharu'r defnydd o Adrannau 135 a 136 yn uniongyrchol.
- Mae'r data'n galluogi defnyddwyr i asesu pa mor aml y defnyddir Adrannau 135 a 136 a'r canlyniadau ar raddfa genedlaethol.

Cyfyngiadau

- Mae gwybodaeth StatsCymru wedi'i bwriadu ar gyfer cynulleidfa fwy gwybodus, heb fawr o esboniad i alluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data yn briodol. Rydym yn annog defnyddwyr i gysylltu â'r Adroddiad Ansawdd / pennawd i gael mwy o gefndir.
- Nid oes unrhyw ddata wedi'i fapio.
- Dim ond sylwebaeth gyfyngedig a geir yn y pennawd data chwarterol.
- Mae'r data a gesglir yn amlasiantaethol (heddlu a byrddau iechyd lleol) ac felly mae'n ofynnol i'r holl eitemau data gael eu casglu o bob un o'r pedwar llw heddlu a'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.

Cylch prosesu data

Casglu data

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn Llywodraeth Cymru yn derbyn ffurflenni monitro Symud Person dan Amheuaeth o Anhwylder Meddyliol i Fan Diogel (Adrannau 135 a 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983) gan bob un o'r byrddau iechyd lleol. Mae pob bwrdd iechyd lleol yn cyflwyno data wedi'i gwblhau ar gyfer pob unigolyn a gedwir mewn ysbyty neu gan yr heddlu o fewn eu hardal bwrdd iechyd. Mae'r safonau sy'n gysylltiedig â'r ffurflenni monitro hyn wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru a'r Grŵp Hysbysiad Newid Safonau Data.

Dilysu a gwirio

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn lanlwytho'r data a dderbynnir bob chwarter. Mae'r system brosesu data a ddefnyddir yn sicrhau bod y data a gyflwynir yn cydymffurfio â'r gofynion data a nodir yn [Hysbysiad Newid Safonau Data 2019/05](#). Gwneir gwiriadau dilysu a gwirio bob chwarter gan gynnwys, er enghraifft, gwirio bod yr achosion o gadw a gyflwynwyd yn berthnasol i'r chwarter a gyflwynir yn unig a bod y dyddiad geni a gyflwynwyd ar gyfer pob achos o gadw yn y fformat cywir. Nodir unrhyw annormaleddau yn y data ac yna codir y rhain gyda'r byrddau iechyd lleol, gan alluogi'r byrddau iechyd lleol i wirio, i gywiro neu roi sylwadau ar eu data a darparu gwybodaeth gyd-destunol lle bo hynny'n berthnasol.

Cyhoeddiadau a diwygiadau

Cynhyrchir yr ystadegau a gyhoeddir gan yr Is-adran Cyflwyno a Pherfformio trwy grynhoi'r wybodaeth a ddarperir gan y byrddau iechyd lleol.

Bob chwarter, rydym yn cyhoeddi pennawd html byr ar ein gwefan sy'n darparu dolen i dablau StatsCymru a'r adroddiad ansawdd hwn. Cynhyrchir y wybodaeth a gyflwynir yn StatsCymru trwy broses awtomataidd.

Cyhoeddir y data am y flwyddyn ariannol ddiweddaraf (12 mis – mis Ebrill i fis Mawrth) fel data dros dro ac mae'n bosibl y caiff ei ddiwygio mewn diweddariadau yn y dyfodol. Mae hyn er mwyn galluogi byrddau iechyd lleol i gyflwyno data diwygiedig os byddant yn cynnal dilysiad pellach.

Mewn achos annhebygol o ddata anghywir yn cael ei gyhoeddi, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael eu hysbysu ochr yn ochr â'n trefniadau [diwygiadau](#), [camgymeriadau](#) a [gohiriadau](#).

Datgelu a chyfrinachedd

Yn dilyn ein hasesiad risg datgelu, credwn fod y tebygolrwydd o adnabod claf unigol o'r data a gyhoeddwn yn isel iawn, heb fod gwybodaeth arall am y claf eisoes yn hysbys. Felly, ni chafwyd gward â'r gwerthoedd bychan.

Rydym yn cydymffurfio â'r [datganiad ar gyfrinachedd a gweld data](#), a gyhoeddwyd yn unol ag Egwyddor 4 fel y nodir yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Ansawdd

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn cydymffurfio â [strategaeth ansawdd](#) ac mae hyn yn unol ag Egwyddor 4 y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn rhoi manylion chwe dimensiwn y System Ystadegol Ewropeaidd a sut yr ydym yn cydymffurfio â nhw:

Perthnasedd

I ba raddau mae'r cynnyrch ystadegol yn diwallu anghenion y defnyddiwr o ran cwmpas a chynnwys.

Defnyddir yr ystadegau yn ganolog i lywio gwaith parhaus a chynllun cyflawni'r Grŵp Sicrhau Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl amlasiantaethol a chenedlaethol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyfrannu at ddealltwriaeth ac adolygiad o'r defnydd o Adrannau 135 a 136 o fewn y continwwm o ymatebion amlasiantaethol i ofal argyfwng iechyd meddwl.

Rydym yn annog defnyddwyr yr ystadegau i gysylltu â ni i roi gwybod sut maen nhw'n defnyddio'r data. Ni fyddai'n bosibl darparu tablau i ddiwallu holl anghenion defnyddwyr, ond nod y tablau a gyhoeddir yn StatsCymru yw ateb cwestiynau cyffredin.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau o bwys a, lle bo modd, yn rhoi cyhoeddusrwydd i newidiadau ar y rhyngrwyd, mewn pwyllgorau a rhwydweithiau eraill er mwyn ymgynghori â defnyddwyr yn ehangach. Ein nod yw ymateb yn gyflym i newidiadau polisi i sicrhau bod ystadegau'n parhau i fod yn berthnasol.

Cywirdeb

Pa mor agos at ganlyniad a amcangyfrifir yw gwir werth (anhysbys).

Gellir rhannu cywirdeb yn wall samplu a gwall nad yw'n wall samplu. Mae camgymeriadau nad ydynt yn wallau samplu'n cynnwys meysydd fel camgymeriadau cwmpas, camgymeriadau diffyg ymateb, camgymeriadau mesur a chamgymeriadau prosesu.

Mae hwn yn gasgliad data sefydledig wedi'i seilio ar ddata 100%, h.y. nid sampl.

Ar gyfer y mwyafrif o chwarteri, mae pob bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data ac o'r herwydd nid oes angen amcangyfrif y ffigurau. Pan ddefnyddir amcangyfrifon, oherwydd nad yw bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data am unrhyw chwarter penodol, amlinellir hyn yn glir yn y data.

Nid ydym wedi ymchwilio i wallau nad ydynt yn wallau samplu hyd yn hyn. Fodd bynnag, gallai gwallau prosesu ddigwydd lle mae clercod mewn ysbytai yn mewnbynnu data yn anghywir i'w system weinyddol a gallai camgymeriadau mesur ddigwydd wrth i staff mewn ysbytai ddehongli diffiniadau mewn ffyrdd gwahanol. Er mwyn lleihau camgymeriadau nad ydynt yn wallau samplu, darperir safonau a chyfarwyddyd ar gyfer pob datganiad data i geisio sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn cyflwyno gwybodaeth yn unol â'r diffiniadau a'r fanyleb a gytunwyd. Mae safonau sy'n ymwneud â'r casglu data hwn wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan [Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru](#). Lle mae gwall nad yw'n wall samplu yn effeithio ar y data, rydym yn darparu gwybodaeth lawn i ddefnyddwyr er mwyn iddynt lunio barn wybodus ar ansawdd yr ystadegau, yn enwedig os oes cyfyngiadau.

Mae ein holl allbynnau'n cynnwys gwybodaeth ar gwmpas, amseriad a daearyddiaeth.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith i ddeall ac egluro symudiadau yn y data ac i wirio bod y system gyfrifiadurol yn cyfrifo'r ystadegau cyhoeddiedig yn gywir.

Mewn achos annhebygol o ddata anghywir yn cael ei gyhoeddi, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael eu hysbysu ar y cyd â'n trefniadau [diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau](#).

Amseroldeb a phrydlondeb

Amseroldeb yw'r cyfnod o amser sydd wedi pasio rhwng cyhoeddi'r data a'r cyfnod y mae'r data hwnnw'n cyfeirio ato. Prydlondeb yw'r cyfnod o amser rhwng y dyddiadau cyhoeddi arfaethedig a gwirioneddol.

Mae'r holl allbynnau'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer drwy rag-gyhoeddi'r dyddiad cyhoeddi trwy'r [calendr i ddod](#). Hefyd, pe byddai'r angen yn codi i ohirio allbwn, byddai hyn yn dilyn ein trefniadau [diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau](#).

Rydym yn cyhoeddi data cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd pob chwarter ac yn unol ag anghenion defnyddwyr.

Hygyrchedd ac eglurder

Hygyrchedd yw pa mor hwylus yw hi i ddefnyddwyr gael mynediad i'r data, gan adlewyrchu hefyd y fformat(au) y mae'r data ar gael ynndynt a'r wybodaeth ategol sydd ar gael. Mae eglurder yn cyfeirio at ansawdd a digonedd y metadata, darluniau a chyngor ategol.

Cyhoeddir yr ystadegau bob chwarter fel pennawd ar ein gwefan ac ar StatsCymru mewn modd trefnus, hygyrch a rag-gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru am 9.30am ar y diwrnod cyhoeddi. Rydym hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r allbynnau ar [Twitter](#). Mae'r holl allbynnau ar gael i'w lawrlwytho am ddim.

Mae data manwl ar gael ar yr un pryd â'r pennawd ar wefan StatsCymru a gellir trin a thrafod hyn ar-lein neu ei lawrlwytho i daenlenni i'w defnyddio all-lein.

Ein nod yw defnyddio iaith glir yn ein hallbynnau ac maent yn cydymffurfio â [pholisi hygyrchedd](#) Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir pob un o'n penawdau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystadegau trwy gysylltu â'r staff perthnasol fel y manylir arnynt yn y pennawd neu drwy hss.performance@llyw.cymru.

Cymaroldeb

I ba raddau y gellir cymharu data dros amser a pharthau.

Lle mae rhybudd hysbys ymlaen llaw ynghylch newidiadau pellach, bydd y rhain yn cael eu rhag-gyhoeddi yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Mae safonau a diffiniadau cytunedig yng Nghymru yn rhoi sicrwydd bod y data'n gyson ar draws yr holl fyrddau iechyd lleol.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru ac i Loegr gyda data Adrannau 135 a 136 yn cael ei goladu gan yr heddlu â chan iechyd. Mae gwybodaeth debyg ar gael o Loegr ond ni ellir cymharu'r data yn union oherwydd diffiniadau a safonau lleol ym mhob ardal. Gan fod y ddeddfwriaeth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn wahanol i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr, ni fydd modd cymharu unrhyw ystadegau a gynhyrchir gan y gwledydd hynny.

Lloegr

Mae'r Mental Health Services Dataset (MHSDS) yn casglu data gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, anabledd dysgu ac awtistiaeth a ariennir gan y GIG yn Lloegr. Mae'n ffurflen ddata orfodol a gynhyrchir wrth ddarparu gwasanaethau i gleifion. Cyhoeddir ystadegau ar ddefnydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn Lloegr gan [NHS Digital](#) yn flynyddol. Cyhoeddir data ethnigrwydd manwl ar [Achosion o Gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl](#) hefyd.

Y Swyddfa Gartref

Cyhoeddir ystadegau ar bwerau a gweithdrefnau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr yn flynyddol gan **Y Swyddfa Gartref**. Darperir data gan y 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr a chan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac mae'n cynnwys data ar:

- nifer yr achosion o gadw dan Adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- grŵp oedran, rhywedd ac ethnigrwydd yr unigolion a gedwir;
- y math o fan diogel a ddefnyddir i gadw unigolion a'r rheswm dros ddefnyddio gorsaf heddlu (lle'n berthnasol); a
- dull cludiant a ddefnyddir i gludo unigolyn i fan diogel, a'r rheswm dros ddefnyddio cerbyd heddlu (lle bo'n berthnasol).

Cydlyniad

I ba raddau mae'r data sy'n deillio o wahanol ffynonellau neu ddulliau, ond yn cyfeirio ar yr un ffenomen, yn debyg.

Yn flaenorol, casglwyd dwy ffynhonnell o wybodaeth ystadegol gan Lywodraeth Cymru ar asesiadau dan Adrannau 135 a 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983:

1. Rhan D o gasgliad data blynyddol 'Poblogaeth Allweddol 90 (KP90) - Derbyniadau, Newidiadau mewn Statws ac Achosion o Gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983' a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Cyhoeddwyd data o'r datganiadau hyn yn flynyddol fel ystadegau swyddogol yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf 'Derbyniad cleifion i gyfleusterau iechyd meddwl yng Nghymru'.
2. Casgliad data chwarterol Symud Person dan Amheuaeth o Anhwyllder Meddyliol i Fan Diogel (Adrannau 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl), a wnaed gan yr Is-adran Cyflawni a Pherfformio. Defnyddiwyd data o'r datganiadau hyn yn flaenorol i lywio gwaith y Grŵp Sicrwydd Concordat.

Yn dilyn newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ymwneud ag Adrannau 135 a 136 ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol i roi'r gorau i gasglu data Rhan D yn flynyddol gan ei fod yn llai amserol a manwl ac yn dyblygu'r casgliad data chwarterol.

Mae'r datganiadau chwarterol, a ddefnyddir yn awr fel ffynhonnell swyddogol ar gyfer data Adrannau 135 a 136, yn cael eu casglu o'r un ffynonellau bob chwarter ac yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol. Lle mae newid mewn diffiniadau neu gwmpas, rydym yn nodi hyn yn glir ar y dudalen bennawd ac yn ychwanegu cafeatau priodol i'r data.

Lledaenu

Mae'r holl ddata o ansawdd digonol yn dilyn y gwirio a amlinellir uchod i gyfiawnhau ei gyhoeddi. Cyhoeddir yr holl ddata gwirioneddol a ddarperir ar ein gwefan ryngweithiol, [StatsCymru](#).

Gwerthuso

Anfonwch eich adborth ar yr ystadegau a'r adroddiad ansawdd hwn at hss.performance@llyw.cymru.

Cynhyrchwyd gan: Yr Is-adran Cyflawni a Pherfformio, Llywodraeth Cymru

Adolygwyd ddiwethaf: Tachwedd 2019.